

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Analysis for Policy



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:

48/2022

DYDDIAD CYHOEDDI:

12/07/2022

Arolwg o agweddau'r cyhoedd at y dreth gyngor

Arolwg o agweddau'r cyhoedd at y dreth gyngor

Jennie Mack a Nerys Owens

Adroddiad Ymchwil Llawn: Mack, J, Owens, N. (2022). *Arolwg o agweddau'r cyhoedd at y dreth gyngor* Caerdydd: Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad GSR 48/2022.>

Ar gael yn: <https://llyw.cymru/agweddaur-cyhoedd-y-dreth-gyngor>

Mae'r safbwyntiau a fynegwyd yn yr adroddiad hwn yn perthyn i'r ymchwilydd, ac nid Llywodraeth Cymru o reidrwydd.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â

Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

E-bost: ymchwil.gwasanaethaucyhoeddus@llyw.cymru

Tabl Cynnwys

Tabl Cynnwys	1
Rhestr o dablau.....	2
Rhestr o ffigurau	3
1. Cefndir.....	4
2. Methodoleg	5
3. Canfyddiadau	6
4. Casgliadau	36
Atodiad A: Methodoleg.....	38

Rhestr o dablau

Tabl 1: Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio orau pam nad yw eich cartref yn talu'r dreth gyngor?	6
Tabl 2: Pa ddisgowntiau, eithriadau neu ostyngiadau ydych chi'n eu derbyn?	8
Tabl 3: Allwch chi enwi tri gwasanaeth sy'n cael eu hariannu gan y dreth gyngor?	12
Tabl 4: 'Rhy uchel' – Pam ydych chi'n dweud hyn?	22
Tabl 5: 'Yn agos at ei lle' – Pam ydych chi'n dweud hyn?	23
Tabl 6: Ar ôl cael gwybodaeth – 'Rhy uchel' – Pam ydych chi'n dweud hyn?	25
Tabl 7: Ar ôl cael gwybodaeth – 'Yn agos at ei lle' – Pam ydych chi'n dweud hyn?	26
Tabl 8: Ar ôl cael gwybodaeth – 'Rhy isel' – Pam ydych chi'n dweud hyn?	26
Tabl 9: Cytuno – Pam ydych chi'n dweud hyn?	28
Tabl 10: Anghytuno – Pam ydych chi'n dweud hyn?	29
Tabl 11: Pe gallech newid un peth am y system dreth gyngor bresennol, beth fyddai hynny?	35

Rhestr o ffigurau

Ffigur 1: Beth yw eich band treth gyngor?	7
Ffigur 2: Ydych chi'n derbyn unrhyw ddisgowntiau, eithriadau neu ostyngiadau yn y dreth gyngor?	8
Ffigur 3: Sut mae eich cartref yn talu'r dreth gyngor?	9
Ffigur 4: Faint o dreth gyngor mae eich cartref yn ei thalu y mis?.....	10
Ffigur 5: Faint fydddech chi'n ei ddweud rydych chi'n ei wybod am y dreth gyngor?	11
Ffigur 6: Gosodiadau am system bresennol y dreth gyngor.....	13
Ffigur 7: Gosodiadau am system bresennol y dreth gyngor.....	16
Ffigur 8: Yn seiliedig ar eich incwm a'ch gwariant, sut fydddech chi'n disgrifio swm y dreth gyngor mae disgwyl i'ch cartref ei dalu?.....	20
Ffigur 9: Yn seiliedig ar y gwasanaethau y mae'r dreth gyngor yn eu hariannu, sut fydddech chi'n disgrifio swm y dreth gyngor mae disgwyl i'ch cartref ei dalu?	24
Ffigur 10: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylid disodli'r dreth gyngor â system drethiant leol wahanol?	27
Ffigur 11: Pa un o'r canlynol ydych chi'n teimlo fyddai'r mesur tecaf o ran faint o dreth leol y disgwylir i chi ei thalu? Sgôr gyfartalog gymedrig ar gyfer tegwch (1=tecaf, 5=lleiaf teg).....	30
Ffigur 12: Y mesur tecaf o ran faint o dreth leol y disgwylir i chi ei thalu (Sgôr o 1).....	31
Ffigur 13: Y mesur lleiaf teg o ran faint o dreth leol y disgwylir i chi ei thalu (Sgôr o 5)	31
Ffigur 14: Pa mor bwysig yw nodau canlynol trethiant lleol? Sgôr gyfartalog gymedrig ar gyfer pwysigrwydd (1=ddim yn bwysig o gwbl, 10=cwbl hanfodol).....	33
Ffigur 15: Pa mor bwysig yw nodau canlynol trethiant lleol? 'Cwbl hanfodol'.....	34

1. Cefndir

- 1.1 Mae Llywodraeth Cymru yn cynnal rhaglen ymchwil i lywio'r ymrwymiad yn y [Rhaglen Lywodraethu](#) i ddiwygio'r dreth gyngor er mwyn sicrhau system decach a mwy graddoledig. Hyd yma, mae hyn wedi cynnwys nifer o brosiectau ymchwil a ystyriodd ddichonoldeb amrywiaeth o ddiwygiadau i'r dreth gyngor, gan gynnwys treth gwerth tir leol, trethi lleol sy'n seiliedig ar incwm ac ailbrisio bandiau'r dreth gyngor. Cyhoeddwyd [crynodeb o ganfyddiadau'r](#) ymchwil hon ym mis Chwefror 2021.
- 1.2 Mae dealltwriaeth y cyhoedd o systemau cyllid yn y dyfodol a'u parodrwydd i'w derbyn yn hanfodol er mwyn i Lywodraeth Cymru gyflawni ei nodau, ond mae [ymchwil flaenorol](#) wedi nodi nad yw lefelau ymwybyddiaeth o drethi lleol nac agweddau tuag atynt yn glir ac mai anaml y cânt eu mesur. Am y rheswm hwn, comisiynodd Llywodraeth Cymru gwestiynau ychwanegol am agweddau tuag at y dreth gyngor yn ystod cam mis Mawrth 2022 Arolwg Omnibws Cymru (a gynhaliwyd gan Beaufort Research Ltd), gyda gwaith dadansoddi yn cael ei wneud yn fewnol gan Wasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi.
- 1.3 Diben yr ymchwil hon oedd ystyried canfyddiadau'r cyhoedd o degwch y dreth gyngor. Roedd hyn yn cynnwys dyluniad y dreth a sut mae'n cael ei gweinyddu yn ogystal â'r ffordd y caiff ei defnyddio a'i buddsoddi mewn cymunedau. Ceisiodd hefyd ystyried y gydberthynas rhwng y lefel o wybodaeth a dealltwriaeth o'r dreth gyngor a chanfyddiadau o ran ei thegwch a chasglu barn ynghylch a ddylid diwygio'r dreth yn y dyfodol.
- 1.4 Mae gweddill yr adroddiad hwn yn nodi'r fethodoleg ar gyfer yr arolwg hwn ac yn cyflwyno canfyddiadau allweddol o dan y themâu canlynol:
- Cyfrifoldeb am dalu'r dreth gyngor
 - Gwybodaeth ac agweddau tuag at system bresennol y dreth gyngor
 - Agweddau tuag at newid

2. Methodoleg

Yr arolwg

- 2.1 Mae Arolwg Omnibws Cymru yn cynnwys cyfweiliadau â sampl gynrychioliadol o 1,000 o oedolion 16 oed a throsodd sy'n byw yng Nghymru, o leiaf. Gwnaed gwaith maes ar gyfer cam mis Mawrth 2022 Arolwg Omnibws Cymru rhwng 28 Chwefror a 20 Mawrth 2022. Cwblhawyd cyfanswm o 1,000 o gyfweiliadau.
- 2.2 Oherwydd argyfwng iechyd cyhoeddus COVID-19, ni fu'n bosibl cynnal yr arolwg yn y ffordd arferol drwy gyfweld â phobl wyneb yn wyneb mewn mannau samplu a ddewiswyd ledled Cymru. Yn lle hynny, cynhaliwyd cyfweiliadau ar-lein gan ddefnyddio [llwyfan cyfnewid paneli ar-lein Cint](#), sef meddalwedd a ddefnyddir mewn ymchwil seiliedig ar arolygon digidol er mwyn casglu gwybodaeth o nifer mawr o ymatebwyr. Cyfluniwyd yr arolygon ar-lein i'w cwblhau ar gyfrifiadur personol/llechen a ffôn clyfar a chynigiwyd fersiynau Cymraeg a Saesneg i bob ymatebydd.
- 2.3 Cynhaliwyd profion arwyddocâd ystadegol ar y data yn y dadansoddiad er mwyn helpu i ddehongli'r canlyniadau. Defnyddiwyd prawf z i nodi a yw cydberthynas a welwyd yn y sampl yn debygol o adlewyrchu cysylltiad gwirioneddol yn y boblogaeth. Pan nodir bod gwahaniaeth rhwng dau is-grŵp yn 'arwyddocaol' yn yr adroddiad hwn, golyga hyn fod y debygolïaeth o gael y canfyddiad ar hap yn llai nag un mewn 20 – h.y. mae'n debygol o adlewyrchu cydberthynas wirioneddol yn y boblogaeth.
- 2.4 Pan gaiff data arolwg eu profi i weld a ydynt yn ystadegol arwyddocaol, tybir bod y sampl a geir yn cynrychioli hapsampl o'r boblogaeth berthnasol. Mae Arolwg Omnibws Cymru yn defnyddio'r dull samplu cwota cyfrannol. A bod yn fanwl gywir, ni ellir pennu arwyddocâd ystadegol gwirioneddol ar gyfer y dull samplu hwn. Felly, mae gwahaniaethau 'arwyddocaol' sy'n seiliedig ar ddata o Arolwg Omnibws Cymru yn cyfeirio at wahaniaeth arwyddocaol ffug-ystadegol ar 95 y cant o'r lefel hyder.
- 2.5 Mae rhagor o wybodaeth am fethodoleg yr arolwg, ynghyd â diffiniadau o'r newidynnau demograffig a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn, wedi'i chynnwys yn Atodiad A. Ceir gwybodaeth am y cwestiynau ychwanegol a gomisiynwyd ar gyfer cam mis Mawrth 2022 Arolwg Omnibws Cymru yn Atodiad B.

3. Canfyddiadau

Cyfrifoldeb am dalu'r dreth gyngor

- 3.1 Roedd yr arolwg yn cynnwys cwestiynau cychwynnol i nodi a oedd y cyfranogwr yn talu'r dreth gyngor ai peidio. Roedd hyn yn llywio'r broses o gyfeirio ymatebwyr at gwestiynau dilynol yr arolwg er mwyn sicrhau mai dim ond cwestiynau a oedd yn berthnasol i'w hamgylchiadau a fyddai'n cael eu gofyn i'r cyfranogwyr.
- 3.2 Nododd mwy na naw o bob 10 cyfranogwr (93 y cant) eu bod nhw, neu rywun yn eu cartref, yn talu'r dreth gyngor. O'r 927 o ymatebwyr a nododd eu bod nhw, neu rywun yn eu cartref, yn talu'r dreth gyngor, ychydig o dan hanner (45 y cant) a nododd fod ganddynt gyfrifoldeb llwyr am dalu'r dreth gyngor, gyda 45 y cant yn nodi fod ganddynt gyd-gydraddoldeb dros dalu'r dreth gyngor. Nododd un o bob 10 ymatebydd nad oedd ganddynt unrhyw gyfrifoldeb am fod rhywun arall yn y cartref yn talu'r dreth gyngor.
- 3.3 O'r 73 o ymatebwyr a nododd nad oeddent yn talu'r dreth gyngor, y rheswm mwyaf cyffredin a roddwyd oedd eu bod ar incwm isel ac yn cael y gostyngiad llawn yn Dreth Gyngor (66 y cant) (Tabl 1).

Tabl 1: Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio orau pam nad yw eich cartref yn talu'r dreth gyngor?

	Canran yr ymatebwyr
Rwyf ar incwm isel ac yn cael y Gostyngiad Llawn yn y Dreth Gyngor	66
Mae pob aelod o'r aelwyd yn fyfyrwr	15
Atebion eraill a roddwyd gan lai na 10 ymatebydd	
Mae pob aelod o'r aelwyd o dan 18 oed	
<i>Ddim yn gwybod</i>	
<i>Arall</i>	


Sylfaen: 73 o ymatebwyr

- 3.4 Gofynnwyd rhagor o gwestiynau am faint o dreth roeddent yn ei thalu i'r cyfranogwyr a nododd eu bod yn talu'r dreth gyngor. Caiff pob eiddo yng Nghymru ei osod yn un o naw band yn seiliedig ar werthoedd eiddo ac amodau'r farchnad dai

ar 1 Ebrill 2003. Band A yw'r band isaf, sy'n gymwys i eiddo gwerth hyd at £44,000 a Band I yw'r band uchaf, sy'n gymwys i eiddo gwerth mwy na £424,000.

- 3.5 Y band mwyaf cyffredin a nodwyd gan yr ymatebwyr oedd Band D (25 y cant), ac yna Fand C (18 y cant).¹ Nododd bron i un o bob pum ymatebydd nad oeddent yn siŵr ym mha un o fandiau'r dreth gyngor yr oeddent (Ffigur 1).

Ffigur 1: Beth yw eich band treth gyngor?




Sylfaen: 927 o ymatebwyr

- 3.6 Gofynnwyd i'r cyfranogwyr hefyd a oeddent yn cael unrhyw ddisgowntiau, eithriadau neu ostyngiadau yn eu bil treth gyngor. Nododd dau o bob tri (67 y cant) nad oeddent yn eu cael, sy'n awgrymu eu bod yn talu bil llawn heb ei newid sy'n seiliedig ar fand eu heiddo. Nid oedd cyfran fach (7 y cant) o'r ymatebwyr yn siŵr a oeddent yn cael unrhyw ddisgowntiau, eithriadau neu ostyngiadau. Nododd tua chwarter yr ymatebwyr (26 y cant) eu bod yn cael un disgownt, eithriad neu ostyngiad neu fwy (Ffigur 2).

¹ [Cyfran yr anheddau sy'n destun treth gyngor, yn ôl band a blwyddyn \(y cant\) \(llyw.cymru\)](#) Mae data StatsCymru yn awgrymu, ym mlwyddyn ariannol 2022-23, mai Band C yw'r band mwyaf cyffredin (21.8 y cant), ac yna Fand B (20.8 y cant). Gellid priodoli dosbarthiad gwahanol y bandiau yn y sampl hon i'r ffaith mai arolwg o unigolion yw hwn yn hytrach nag aelwydydd a'r posibilrwydd bod ymatebwyr wedi nodi'r band anghywir. Nid oedd methodoleg yr arolwg yn caniatáu i ymatebwyr wirio eu hatebion drwy gyfeirio, er enghraifft, at fil treth gyngor diweddar. Gan nad oedd 16 y cant o'r ymatebwyr yn siŵr ym mha un o fandiau'r dreth gyngor yr oeddent, ni ellir diystyru'r posibilrwydd bod rhai atebion yn anghywir.

Ffigur 2: Ydych chi'n derbyn unrhyw ddisgowntiau, eithriadau neu ostyngiadau yn y dreth gyngor?



Sylfaen: 927 o ymatebwyr

- 3.7 Gofynnwyd i'r ymatebwyr hynny a nododd eu bod yn cael disgowntiau, eithriadau neu ostyngiadau, beth roeddent yn ei gael. Roedd y cwestiwn hwn yn caniatáu ymateb testun rhydd a chafodd ymatebion tebyg eu grwpio ynghyd. Y disgownt mwyaf cyffredin a nodwyd oedd y disgownt person sengl (56 y cant) (Tabl 2).

Tabl 2: Pa ddisgowntiau, eithriadau neu ostyngiadau ydych chi'n eu derbyn?


Ymateb	Canran yr ymatebwyr
Disgownt Person Sengl	56
Budd-dal y Dreth Gyngor/Gostyngiad	7
Disgownt Anabledd/Taliad Annibyniaeth Personol	7
Di-waith/Yn cael Credyd Cynhwysol	6
<i>Arall</i>	9
Y tri ymateb mwyaf cyffredin a roddwyd gan lai na 5 y cant o'r ymatebwyr	
Yn cael budd-daliadau (amhenodol)	
Yn cael Budd-dal Tai	
Disgownt Myfyriwr	

Sylfaen: 245 o ymatebwyr

Nid yw pob un o'r atebion a roddwyd gan gyfranogwyr yn ymwneud â disgownt, eithriad neu ostyngiad presennol.

3.8 Gellir talu'r dreth gyngor yn wythnosol, yn fisol, dros 10 neu 12 mis neu mewn cyfandaliad blynyddol. Nododd mwy na hanner yr ymatebwyr (57 y cant) eu bod yn talu eu bil treth gyngor mewn 10 rhandaliad misol, gydag ychydig o dan draean o'r ymatebwyr (30 y cant) yn talu mewn 12 o randaliadau misol. Roedd yn llawer llai cyffredin i ymatebwyr dalu'n wythnosol neu'n flynyddol (3 y cant a 4 y cant, yn y drefn honno). Nid oedd cyfran fach o ymatebwyr (6 y cant) yn gwybod sut roeddent yn talu'r dreth gyngor (Ffigur 3).

Ffigur 3: Sut mae eich cartref yn talu'r dreth gyngor?




Sylfaen: 927 o ymatebwyr

3.9 Yn ogystal â gofyn pa mor aml roeddent yn gwneud taliadau, gofynnwyd i'r cyfranogwyr faint roeddent yn ei dalu. Cafodd yr ymatebion eu dosbarthu i ystodau gwerth. O'r 24 o ymatebwyr a oedd yn talu'n wythnosol, roedd 13 yn talu rhwng £1-30, roedd saith yn talu rhwng £31-50 ac roedd tri yn talu mwy na £50. O'r rhai a oedd yn talu'n fisol, yr ystod gwerthoedd fwyaf cyffredin oedd £101-150 y mis (35 y cant) (Ffigur 4).² O'r 38 o ymatebwyr a oedd yn talu cyfandaliad blynyddol, roedd pump yn talu £100 neu lai, roedd wyth yn talu rhwng £101-1,000, roedd 13 yn talu rhwng £1,001-2,000, roedd saith yn talu rhwng £2,001-3,000 ac roedd dau yn talu mwy na £3,000.

² Mae canlyniadau'r ateb hwn yn cyfuno atebion gan y rhai sy'n talu mewn 10 a 12 rhandaliad misol, a fydd yn dylanwadu ar y gyfradd fisol.

Ffigur 4: Faint o dreth gyngor mae eich cartref yn ei thalu y mis?



Sylfaen: 806 o ymatebwyr


Mae'r canlyniadau hyn yn cynnwys ymatebion gan gyfranogwyr sy'n talu mewn 10 neu 12 rhandaliad misol, a fydd yn dylanwadu ar eu cyfradd fisol.

Gwybodaeth ac agweddau tuag at system bresennol y dreth gyngor

Roedd yr ymatebwyr i'r arolwg wedi'u rhannu'n gyfartal rhwng y rhai a oedd yn gwybod eithaf tipyn am y dreth gyngor a'r rhai nad oeddent yn gwybod fawr ddim amdani. Pan ofynnwyd iddynt enwi gwasanaethau a ariennir gan y dreth gyngor, y gwasanaethau mwyaf cyffredin a enwyd oedd ailgylchu a chasglu gwastraff, gwasanaethau brys a phrifyrdd.

- 3.10 Roedd yr arolwg yn cynnwys cyfres o gwestiynau i fesur lefelau gwybodaeth a dealltwriaeth o system y dreth gyngor a chanfyddiadau o degwch y system honno.
- 3.11 Gofynnwyd i bob ymatebydd faint roedd yn ei wybod am y dreth gyngor. Roedd yr ymatebion wedi'u rhannu'n gyfartal rhwng y rhai a nododd eu bod yn gwybod eithaf tipyn am system y dreth gyngor (44 y cant) a'r rhai nad oeddent yn gwybod fawr ddim amdani (43 y cant). Nododd cyfran fach o'r ymatebwyr eu bod yn gwybod llawer iawn am y dreth gyngor (5 y cant) neu nad oeddent yn gwybod dim byd o gwbl (7 y cant) (Ffigur 5).

Ffigur 5: Faint fydddech chi'n ei ddweud rydych chi'n ei wybod am y dreth gyngor?



Sylfaen: 1,000 o ymatebwyr

3.12 Roedd gwahaniaethau sylweddol yn ôl rhyw, oedran, band incwm a deiliadaeth tai. Roedd ymatebwyr a oedd yn fwy tebygol o nodi eu bod yn gwybod llawer iawn neu eithaf tipyn am y dreth gyngor:

- Yn ddynion (54 y cant, o gymharu â 45 y cant o fenywod)
- Yn ennill £75,000 y flwyddyn (66 y cant, o gymharu â phob band incwm is)
- Yn 55+ oed (57 y cant, o gymharu â 53 y cant o'r rhai 35-54 oed a 35 y cant o'r rhai 16-34 oed)
- Yn berchenogion eiddo (55 y cant, o gymharu â 45 y cant o rentwyr cymdeithasol a 40 y cant o rentwyr preifat).

3.13 Roedd ymatebwyr a oedd yn fwy tebygol o nodi nad oeddent yn gwybod fawr ddim am y dreth gyngor, os o gwbl:

- Yn fenywod (54 y cant, o gymharu â 44 y cant o ddynion)
- Yn 16-34 oed (61 y cant, o gymharu â 47 y cant o'r rhai 35-54 oed a 42 y cant o'r rhai 55+ oed)
- Yn ddi-waith (72 y cant, o gymharu â 46 y cant o gyflogaion amser llawn, 55 y cant o gyflogaion rhan-amser, 31 y cant o'r ymatebwyr hunangyflogedig a

46 y cant o'r ymatebwyr a oedd wedi ymddeol/nad oeddent yn gweithio'n barhaol)

- Yn ennill llai na £19,999 y flwyddyn (54 y cant, o gymharu â 34 y cant o'r ymatebwyr a oedd yn ennill £75,000+ y flwyddyn)
- Rhentwyr cymdeithasol (59 y cant, o gymharu â 44 y cant o berchenogion eiddo)
- Yn anabl (55 y cant, o gymharu â 47 y cant o'r ymatebwyr nad oeddent yn anabl).

3.14 Er mwyn mesur lefelau dealltwriaeth o'r ffordd mae'r dreth gyngor yn cael ei defnyddio, gofynnwyd i bob cyfranogwr enwi tri gwasanaeth a ariennir gan y dreth gyngor. Y gwasanaeth a enwyd amlaf oedd ailgylchu neu gasglu gwastraff (64 y cant) ac yna wasanaethau brys (55 y cant) a phrifyrdd (45 y cant) (Tabl 3).

Tabl 3: Allwch chi enwi tri gwasanaeth sy'n cael eu hariannu gan y dreth gyngor?

Ymateb	Canran yr ymatebwyr
Ailgylchu/casglu gwastraff	64
Gwasanaethau brys	55
Prifyrdd	45
Addysg/ysgolion	17
Cyngor/cynghorwyr/llywodraeth	12
Gofal cymdeithasol/gwasanaethau cymdeithasol	8
Llyfrgelloedd	7
Parciau	5
Iechyd/gwasanaethau iechyd/y GIG	5
Gwasanaethau'r cyngor	5
Y tri ymateb mwyaf cyffredin a roddwyd gan lai na 5 y cant o'r ymatebwyr	
Gwasanaethau cymunedol	
Tai/cynnal a chadw tai	
Gwasanaethau/cyfleusterau hamdden	


Sylfaen: 1,000 o ymatebwyr

Dangosodd yr arolwg fod y mwyafrif o'r ymatebwyr yn ystyried bod talu'r dreth gyngor yn broses syml, eu bod yn gwybod â phwy y dylent gysylltu pe bai ganddynt broblem gyda'r dreth gyngor ac nad oeddent yn ei chael hi'n anodd deall eu bil treth gyngor. Cymysg oedd agweddau'r ymatebwyr o ran ymwybyddiaeth o'r cymorth a all fod ar gael i dalu'r dreth gyngor ac a yw eu bil treth gyngor yn adlewyrchu gwerth presennol eu cartref.

3.15 Gofynnwyd i'r ymatebwyr a nododd eu bod yn talu'r dreth gyngor nodi i ba raddau roeddent yn cytuno neu'n anghytuno â chyfres o osodiadau am system bresennol y dreth gyngor.

- Mae talu'r dreth gyngor yn broses syml.
- Dydw i ddim yn gwybod pwy i gysylltu â nhw os oes gen i broblem gyda'r dreth gyngor.
- Rwyf yn ymwybodol o'r cymorth treth gyngor a allai fod ar gael.
- Mae'n anodd deall fy mil treth gyngor.
- Mae fy mil treth gyngor yn adlewyrchu gwerth presennol fy nghartref.

Ffigur 6: Gosodiadau am system bresennol y dreth gyngor



Sylfaen: 927 o ymatebwyr

Mae 'Cytuno' yn cyfuno'r ymatebion 'Cytuno'n Gryf' a 'Cytuno'. Mae 'Anghytuno' yn cyfuno'r ymatebion 'Anghytuno'n Gryf' ac 'Anghytuno'.

3.16 Fel y dangosir yn Ffigur 8, roedd tua wyth o bob 10 ymatebydd (82 y cant) yn cytuno bod talu'r dreth gyngor yn broses syml. Roedd gwahaniaethau sylweddol yn ôl oedran a statws anabledd. Roedd ymatebwyr a oedd yn fwy tebygol o gytuno bod talu'r dreth gyngor yn broses syml:

- Yn 55+ oed (91 y cant, o gymharu â 86 y cant o'r rhai 35-54 oed a 63 y cant o'r rhai 16-34 oed)
- Heb fod yn anabl (84 y cant, o gymharu â 76 y cant o'r ymatebwyr anabl).

3.17 Roedd bron i dri chwarter yr ymatebwyr (72 y cant) yn anghytuno â'r gosodiad eu bod yn gwybod â phwy y dylent gysylltu pe bai ganddynt broblem gyda'r dreth gyngor. Roedd gwahaniaethau sylweddol yn ôl oedran, statws anabledd a statws gweithio. Roedd ymatebwyr a oedd yn fwy tebygol o gytuno nad oeddent yn gwybod â phwy y dylent gysylltu pe bai ganddynt broblem gyda'r dreth gyngor:

- Yn 16-34 oed (32 y cant, o gymharu â 24 y cant o'r rhai 35-54 oed a 17 y cant o'r rhai 55+ oed)
- Yn anabl (33 y cant, o gymharu ag 20 y cant o'r ymatebwyr nad oeddent yn anabl)
- Yn fyfyrwyr amser llawn (44 y cant, o gymharu â 24 y cant o gyflogeion amser llawn, 23 y cant o gyflogeion rhan-amser, 21 y cant o'r ymatebwyr hunangyflogedig ac 20 y cant o'r ymatebwyr a oedd wedi ymddeol/nad oeddent yn gweithio'n barhaol).

3.18 Roedd ychydig dros hanner yr ymatebwyr (54 y cant) yn cytuno eu bod yn ymwybodol o'r cymorth a all fod ar gael i dalu'r dreth gyngor. Roedd gwahaniaethau sylweddol yn ôl oedran, strwythur yr aelwyd a statws talu'r dreth gyngor. Roedd ymatebwyr a oedd yn fwy tebygol o gytuno eu bod yn ymwybodol o'r cymorth a all fod ar gael i dalu'r dreth gyngor:

- Yn 55+ oed (62 y cant, o gymharu â 52 y cant o'r rhai 35-54 oed a 47 y cant o'r rhai 16-34 oed)
- O aelwydydd un oedolyn (68 y cant, o gymharu â 53 y cant o'r ymatebwyr o aelwydydd â chyplau heb ddibynyddion a 47 y cant o'r ymatebwyr o aelwydydd lle roedd cyplau yn byw gyda dibynyddion)
- Yn cael disgowntiau neu ostyngiadau yn eu treth gyngor (70 y cant, o gymharu â 49 y cant o'r ymatebwyr nad oeddent yn cael disgowntiau na gostyngiadau).

3.19 Roedd tua dau o bob tri ymatebydd (65 y cant) yn anghytuno â'r gosodiad bod eu biliau treth gyngor yn anodd i'w deall. Roedd gwahaniaethau sylweddol yn ôl

oedran, deiliadaeth eiddo a statws talu'r dreth gyngor. Roedd ymatebwyr a oedd yn fwy tebygol o gytuno bod eu bil treth gyngor yn anodd i'w ddeall:

- Yn 16-34 oed (35 y cant, o gymharu â 23 y cant o'r rhai 55+ oed)
- Yn cael disgowntiau neu ostyngiadau yn eu treth gyngor (34 y cant, o gymharu â 26 y cant o'r rhai nad oeddent yn cael disgowntiau na gostyngiadau)

3.20 Roedd ymatebwyr a oedd yn fwy tebygol o anghytuno bod eu biliau treth gyngor yn anodd i'w deall:

- Yn berchenogion eiddo (71 y cant, o gymharu â 61 y cant o rentwyr preifat, 51 y cant o rentwyr cymdeithasol a 25 y cant o'r ymatebwyr a oedd yn byw mewn eiddo rhanberchnogaeth).

3.21 Mewn perthynas â'r gosodiad ynghylch a yw biliau treth gyngor yn adlewyrchu gwerth presennol eu cartref, roedd bron i hanner (47 y cant) yn cytuno eu bod yn ei adlewyrchu. Roedd gwahaniaethau sylweddol yn ôl oedran, deiliadaeth eiddo, strwythur yr aelwyd a statws talu'r dreth gyngor. Roedd ymatebwyr a oedd yn fwy tebygol o gytuno bod eu biliau treth gyngor yn adlewyrchu gwerth presennol eu cartref:

- Yn 55+ oed (51 y cant, o gymharu â 35 y cant o'r rhai 16-34 oed)
- Yn berchenogion eiddo (54 y cant, o gymharu â 42 y cant o rentwyr cymdeithasol a 33 y cant o rentwyr preifat)
- O aelwydydd un oedolyn (55 y cant, o gymharu â 44 y cant o'r ymatebwyr o aelwydydd lle roedd cwpl yn byw gyda dibynyddion)
- Yn cael disgowntiau neu ostyngiadau yn eu treth gyngor (55 y cant, o gymharu â 45 y cant o'r ymatebwyr nad oeddent yn cael disgowntiau nac eithriadau).


3.22 Mae'n werth nodi bod bron i un o bob pum ymatebydd (17 y cant) wedi rhoi'r ateb 'ddim yn gwybod' mewn ymateb i'r gosodiad olaf hwn.

Dangosodd yr arolwg fod y mwyafrif o'r ymatebwyr yn anghytuno eu bod wedi gweld budd y dreth gyngor yn cael ei buddsoddi yn eu cymuned leol neu fod system y dreth gyngor yn deg a nododd dros hanner nad oedd yn glir iddyn nhw sut mae'r dreth gyngor yn cael ei gwario. Cymysg oedd agweddau'r ymatebwyr ynghylch i ba raddau y mae system y dreth gyngor yn cefnogi pobl na allant fforddio talu ac a oes gan gynghorau lleol ddigon o reolaeth dros gyfraddau'r dreth gyngor.

3.23 Gofynnwyd i bawb a gymerodd ran yn yr arolwg nodi i ba raddau roeddent yn cytuno neu'n anghytuno â chyfres bellach o osodiadau am system bresennol y dreth gyngor.

- Mae system y dreth gyngor yn deg.
- Rwyf wedi gweld budd y dreth gyngor yn cael ei buddsoddi yn fy nghymuned leol.
- Mae system y dreth gyngor yn cefnogi pobl na allant fforddio talu.
- Nid oes gan gynghorau lleol ddigon o reolaeth dros gyfraddau'r dreth gyngor.
- Nid yw'n glir i mi sut mae'r dreth gyngor yn cael ei gwario

Ffigur 7: Gosodiadau am system bresennol y dreth gyngor



Sylfaen: 1,000 o ymatebwyr

Mae 'Cytuno' yn cyfuno'r ymatebion 'Cytuno'n Gryf' a 'Cytuno'. Mae 'Anghytuno' yn cyfuno'r ymatebion 'Anghytuno'n Gryf' ac 'Aghytuno'.

- 3.24 Fel y dangosir yn Ffigur 7, roedd mwy na hanner (57 y cant) o'r ymatebwyr yn anghytuno â'r gosodiad bod system y dreth yn deg. Roedd gwahaniaethau sylweddol yn ôl rhyw, oedran, band incwm, strwythur yr aelwyd a statws talu'r dreth gyngor. Roedd ymatebwyr a oedd yn fwy tebygol o gytuno bod system y dreth gyngor yn deg:
- Yn ddynion (31 y cant, o gymharu â 25 y cant o fenywod)
 - Yn 16-34 oed (32 y cant, o gymharu â 24 y cant o'r rhai 35-54 oed)
 - Yn ennill mwy na £75,000 y flwyddyn (46 y cant, o gymharu ag ymatebwyr ym mhob band incwm is)
 - Yn cael disgowntiau neu ostyngiadau yn eu treth gyngor (34 y cant, o gymharu â 25 y cant o'r rhai nad ydynt yn cael disgowntiau na gostyngiadau).
- 3.25 Roedd ymatebwyr a oedd yn fwy tebygol o anghytuno bod system y dreth gyngor yn deg:
- O aelwyd lle roedd cwpl yn byw gyda dibynyddion (64 y cant, o gymharu â 53 y cant o'r ymatebwyr o aelwydydd un oedolyn).
- 3.26 Roedd y mwyafrif (62 y cant) o'r ymatebwyr hefyd yn anghytuno eu bod wedi gweld budd y dreth gyngor yn cael ei buddsoddi yn eu cymuned leol. Roedd gwahaniaethau sylweddol yn ôl crefydd, rhyw, oedran, statws gweithio, deiliadaeth eiddo, statws talu'r dreth gyngor a band y dreth gyngor. Roedd ymatebwyr a oedd yn fwy tebygol o gytuno eu bod wedi gweld budd y dreth gyngor yn cael ei buddsoddi yn eu cymuned leol:
- O Gaerdydd a De-ddwyrain Cymru (31 y cant, o gymharu ag 20 y cant o'r ymatebwyr o Ogledd Cymru)
 - Yn ddynion (32 y cant, o gymharu â 21 y cant o fenywod)
 - Yn berchenogion eiddo (27 y cant, o gymharu â 19 y cant o rentwyr cymdeithasol)
- 3.27 Roedd ymatebwyr a oedd yn fwy tebygol o anghytuno eu bod wedi gweld budd y dreth gyngor yn cael ei buddsoddi yn eu cymuned leol:
- Yn 35-54 oed (73 y cant, o gymharu â 60 y cant o'r rhai 55+ oed a 53 y cant o'r rhai 16-34 oed)

- Yn gyflogeion amser llawn neu ran-amser (68 y cant yn y drefn honno, o gymharu â 59 y cant o'r ymatebwyr a oedd wedi ymddeol/nad oeddent yn gweithio'n barhaol, 49 y cant o'r ymatebwyr di-waith a 30 o'r myfyrwyr llawn amser)
- Yn cael disgowntiau neu ostyngiadau yn eu treth gyngor (66 y cant, o gymharu â 58 y cant o'r ymatebwyr a oedd yn cael disgowntiau neu ostyngiadau) a 39 y cant o'r ymatebwyr nad oeddent yn talu'r dreth gyngor)
- Ym mand D y dreth gyngor (hunangofnodedig) (73 y cant, o gymharu â'r ymatebwyr ym Mandiau C, E, F, G, H ac I, neu'r rhai nad oeddent yn siŵr ym mha un o fandiau'r dreth gyngor yr oeddent).

3.28 Roedd llai na hanner (43 y cant) o'r ymatebwyr yn cytuno bod system y dreth gyngor yn cefnogi pobl na allant fforddio talu. Roedd gwahaniaethau sylweddol yn ôl crefydd, rhyw, oedran, statws gweithio, deiliadaeth eiddo, strwythur yr aelwyd a statws talu'r dreth gyngor. Roedd ymatebwyr a oedd yn fwy tebygol o gytuno bod system y dreth gyngor yn cefnogi pobl na allant fforddio talu:

- Yn ddynion (48 y cant, o gymharu â 38 y cant o fenywod)
- Yn 55+ oed (50 y cant, o gymharu â 40 y cant o'r rhai 35-54 oed a 36 y cant o'r rhai 16-34 oed)
- Yn bobl wedi ymddeol neu nad oeddent yn gweithio'n barhaol (52 y cant, o gymharu â 40 y cant o gyflogeion rhan-amser, 39 o gyflogeion amser llawn a 29 o'r ymatebwyr di-waith)
- O aelwydydd un oedolyn (54 y cant, o gymharu â phob strwythur aelwyd arall)
- Yn unigolion nad oeddent yn talu'r dreth gyngor (68 y cant, o gymharu â 47 y cant o'r rhai a oedd yn cael disgowntiau neu ostyngiadau a 38 y cant o'r rhai nad oeddent yn cael disgowntiau na gostyngiadau).

3.29 Roedd ymatebwyr a oedd yn fwy tebygol o anghytuno bod system y dreth gyngor yn cefnogi pobl na allant fforddio talu:

- O Gymoedd De Cymru (42 y cant, o gymharu â 31 y cant o'r ymatebwyr o Ogledd Cymru)
- Yn byw mewn llety rhent preifat (44 y cant, o gymharu â 34 y cant o berchenogion eiddo)


- 3.30 Roedd yr ymatebion wedi'u rhannu'n weddol gyfartal o ran y gosodiad nad oes gan gynghorau lleol ddigon o reolaeth dros gyfraddau'r dreth gyngor, gyda 41 y cant yn anghytuno â'r gosodiad hwn a 29 y cant yn ateb, 'ddim yn gwybod'. Roedd gwahaniaethau sylweddol yn ôl crefydd, rhyw, oedran, statws gweithio, deiliadaeth eiddo a statws talu'r dreth gyngor. Roedd ymatebwyr a oedd yn fwy tebygol o gytuno nad oes gan gynghorau lleol ddigon o reolaeth dros gyfraddau'r dreth gyngor:
- O Ganolbarth a Gorllewin Cymru (36 y cant, o gymharu â 34 y cant o'r ymatebwyr o Gaerdydd a De-ddwyrain Cymru a 23 y cant o'r ymatebwyr o Ogledd Cymru)
 - Yn ddynion (46 y cant, o gymharu â 36 y cant o fenywod)
 - Yn gyflogeion amser llawn (35 y cant, o gymharu â 24 y cant o'r ymatebwyr a oedd wedi ymddeol/nad oeddent yn gweithio'n barhaol a 19 y cant o'r ymarferwyr hunangyflogedig).
- 3.31 Roedd ymatebwyr a oedd yn fwy tebygol o anghytuno nad oes gan gynghorau lleol ddigon o reolaeth dros gyfraddau'r dreth gyngor:
- Yn 55+ oed (45 y cant, o gymharu â 43 y cant o'r rhai 35-54 oed a 32 y cant o'r rhai 16-34 oed)
 - Yn berchenogion eiddo (44 y cant, o gymharu â 35 y cant o rentwyr preifat).
 - Yn cael disgowntiau neu ostyngiadau yn eu treth gyngor (43 y cant, o gymharu â 42 y cant o'r ymatebwyr nad oeddent yn cael disgowntiau na gostyngiadau) a 22 y cant o'r ymatebwyr nad ydynt yn talu'r dreth gyngor)
- 3.32 Roedd mwy na hanner yr ymatebwyr (56 y cant) yn cytuno nad oedd yn glir iddynt sut mae'r dreth gyngor yn cael ei gwario. Roedd gwahaniaethau sylweddol yn ôl oedran, statws gweithio, deiliadaeth eiddo a strwythur yr aelwyd. Roedd ymatebwyr a oedd yn fwy tebygol o gytuno nad oedd yn glir iddynt sut mae'r dreth gyngor yn cael ei gwario:
- O aelwydydd a oedd yn cael eu meddiannu gan gyplau â dibynyddion (66 y cant, o gymharu â 55 y cant o'r ymatebwyr o aelwydydd un oedolyn a 52 y cant o'r ymatebwyr o aelwydydd lle roedd cwpl yn byw heb ddibynyddion).
- 3.33 Roedd ymatebwyr a oedd yn fwy tebygol o anghytuno nad oedd yn glir iddynt sut mae'r dreth gyngor yn cael ei gwario:

- Yn 55+ oed (49 y cant, o gymharu â 35 y cant o'r rhai 35-54 oed a 29 y cant o'r rhai 16-34 oed)
- Yn bobl wedi ymddeol neu nad oeddent yn gweithio'n barhaol (50 y cant, o gymharu â 35 y cant o gyflogion rhan-amser, 35 o'r ymatebwyr di-waith, 33 y cant o gyflogion amser llawn a 27 o fyfyrwyr amser llawn)
- Yn berchenogion eiddo (43 y cant, o gymharu â 32 y cant o rentwyr preifat a 31 y cant o rentwyr cymdeithasol).

Nododd y mwyafrif o'r ymatebwyr fod swm y dreth gyngor y mae disgwyl iddynt ei dalu yn rhy uchel. Pan roddwyd gwybodaeth iddynt am y gwasanaethau a ariennir gan y dreth gyngor, nododd cyfran lai o'r ymatebwyr fod eu bil treth gyngor yn rhy uchel a nododd cyfran fwy o'r ymatebwyr fod eu bil yn agos at ei lle neu'n rhy isel yng ngoleuni'r wybodaeth hon.

3.34 Gofynnwyd i'r ymatebwyr hynny a oedd yn talu'r dreth gyngor, yn seiliedig ar eu hincwm a'u gwariant, sut y byddent yn disgrifio swm y dreth gyngor mae disgwyl i'w cartref ei dalu. Nododd y mwyafrif (61 y cant) fod eu bil treth gyngor yn 'rhy uchel' (Ffigur 8).

Ffigur 8: Yn seiliedig ar eich incwm a'ch gwariant, sut fydddech chi'n disgrifio swm y dreth gyngor mae disgwyl i'ch cartref ei dalu?



Sylfaen: 927 o ymatebwyr

3.35 Roedd gwahaniaethau sylweddol yn ôl crefydd, rhyw oedran, deiliadaeth eiddo, band incwm, statws anabledd a statws gweithio. Roedd ymatebwyr a oedd yn fwy tebygol o nodi bod y dreth gyngor yn 'rhy uchel':

- O Gymoedd De Cymru (66 y cant, o gymharu â 56 y cant o'r ymatebwyr o Gaerdydd a De-ddwyrain Cymru)
- Yn fenywod (66 y cant, o gymharu â 56 y cant o ddynion)
- Yn 35-54 oed (71 y cant, o gymharu â 63 y cant o'r rhai 55+ oed a 46 y cant o'r rhai 16-34 oed)
- Yn berchenogion eiddo (69 y cant, o gymharu â 59 y cant o rentwyr cymdeithasol)
- Yn ennill rhwng £20,000 a £29,999 y flwyddyn (72 y cant, o gymharu â'r ymatebwyr a oedd yn ennill llai na £9,999, a'r ymatebwyr ym mhob band incwm arall gwerth a oedd yn fwy na £29,999)
- Heb fod yn anabl (63 y cant, o gymharu â 55 y cant o'r ymatebwyr anabl).

3.36 Roedd ymatebwyr a oedd yn llai tebygol o nodi bod y dreth gyngor yn 'rhy uchel':

- Yn fyfyrwyr amser llawn (26 y cant, o gymharu â phob statws gweithio arall).

3.37 Gofynnwyd i'r cyfranogwyr hynny a roddodd yr ateb 'rhy uchel' pam roeddent wedi dweud hynny a chafodd atebion syml eu grwpio ynghyd. Yr ymateb mwyaf cyffredin (13 y cant) oedd 'ddim yn gweld unrhyw fudd yn deillio o'r dreth gyngor neu ddim yn defnyddio/cael unrhyw wasanaethau'. Dywedodd un o bob 10 ymatebydd ei bod yn rhy ddrud neu'n rhy uchel, a dywedodd un o bob 10 nad oeddent yn gallu ei fforddio (Tabl 4).

Tabl 4: 'Rhy uchel' – Pam ydych chi'n dweud hyn?

Ymateb	Canran yr ymatebwyr a roddodd yr ateb 'rhy uchel'
Ddim yn gweld unrhyw fudd/ddim yn defnyddio/cael unrhyw wasanaethau	13
Drud iawn/rhy uchel	10
Alla i ddim ei fforddio/mae'n anodd ei fforddio gyda'r arian sy'n dod i mewn a gwariant arall	10
Ddim yn gweld llawer o fudd yn deillio ohono/ddim yn defnyddio nac yn cael gwasanaethau	9
Ar incwm isel/ddim yn ennill digon o gyflog/yn cael budd-daliadau	8
<i>Arall</i>	8
Wedi cynyddu cryn dipyn yn ddiweddar/yn cynyddu drwy'r amser	7
Un o'n biliau mwyaf/rhan fawr o'n gwariant	7
Pensiynwyr ydym ni	6
Mae gwasanaethau yn wael	5
Mae costau byw yn cynyddu	5
Y tri ymateb mwyaf cyffredin a gyflwynwyd gan lai na 5 y cant o'r ymatebwyr	
Mae'n ddud o gymharu â meysydd eraill	
Nid yw'n adlewyrchu incwm/dylai adlewyrchu lefel yr incwm	
Gwerth gwael am arian	

Sylfaen: 562 o ymatebwyr

- 3.38 Nododd chwarter yr ymatebwyr (25 y cant) fod swm y dreth gyngor y mae disgwyl iddynt ei dalu yn 'agos at ei le' (Ffigur 9). Roedd gwahaniaethau sylweddol yn ôl rhyw, band incwm a strwythur yr aelwyd. Roedd ymatebwyr a oedd yn fwy tebygol o nodi bod y dreth gyngor yn 'agos at ei lle':
- Yn ddynion (30 y cant, o gymharu â 20 y cant o fenywod)
 - Yn ennill £75,000+ y flwyddyn (48 y cant, o gymharu â'r holl ymatebwyr a oedd yn ennill rhwng £10,000-74,999)
 - O aelwydydd un oedolyn (24 y cant, o gymharu ag 21 y cant o'r ymatebwyr o aelwydydd lle roedd cyplau yn byw gyda dibynyddion).
- 3.39 Ymhlith y 229 o ymatebwyr a roddodd yr ateb, 'yn agos at ei le', yr esboniad mwyaf cyffredin a roddwyd ar gyfer yr ateb hwn oedd ei fod yn swm teg neu ei fod yn ymddangos yn rhesymol (32 y cant). Nododd un o bob pum ymatebydd (20 y cant) fod y dreth yn 'agos at ei lle' am eu bod yn gallu fforddio ei thalu a nododd ychydig dros un o bob 10 ei bod yn adlewyrchu eu heiddo neu'r ardal lle maent yn byw (11 y cant) (Tabl 5).

Tabl 5: 'Yn agos at ei lle' – Pam ydych chi'n dweud hyn?

Ymateb	Canran yr ymatebwyr a roddodd yr ateb 'yn agos at ei lle'
Mae'n deg/swm teg/mae'n ymddangos yn rhesymol	32
Ddim yn gallu ei fforddio	20
Mae'n adlewyrchu eu heiddo/yr ardal lle rydym yn byw	11
Mae'n adlewyrchu ein hincwm/seiliedig ar Incwm	7
Mae'n talu am lawer o wasanaethau lleol/mae'n deg o ystyried y gwasanaethau rydym yn eu cael/mae angen ariannu gwasanaethau	6
<i>Arall</i>	5
Y tri ymateb mwyaf cyffredin a gyflwynwyd gan lai na 5 y cant o'r ymatebwyr	
Mae gwasanaethau yn dda/mae'r ardal yn cael ei chynnal yn dda	
Gwerth da am arian	
Mae'n adlewyrchu incwm isel	


Sylfaen: 229 o ymatebwyr

- 3.40 Rhoddodd ychydig dros un o bob 10 ymatebydd (14 y cant) yr ateb 'ddim yn gwybod' pan gawsant eu holi am swm y dreth gyngor y mae disgwyl iddynt ei dalu.
- 3.41 Wedyn, cafodd y rhai a gymerodd ran yn yr arolwg rywfaint o wybodaeth am y ffordd y defnyddir y dreth gyngor yng Nghymru:

Mae'r dreth gyngor yng Nghymru yn helpu i ariannu gwasanaethau yn ein cymunedau, gan gynnwys addysg, gofal cymdeithasol, plismona, gwasanaethau tân ac achub, gwastraff ac ailgylchu, yn ogystal â llawer o wasanaethau eraill.

- 3.42 Wedyn, gofynnwyd i'r cyfranogwyr, yn seiliedig ar y gwasanaethau y mae'r dreth gyngor yn eu hariannu, sut y byddent yn disgrifio swm y dreth gyngor y mae disgwyl i'w cartref ei dalu. Ar ôl i'r wybodaeth hon gael ei chyflwyno, nododd cyfran lai o'r ymatebwyr fod y dreth gyngor y gofynnir iddynt ei thalu yn 'rhy uchel' (49 y cant, o gymharu â 61 y cant cyn i'r wybodaeth gael ei darparu). Nododd cyfran fwy o'r ymatebwyr fod y swm y mae disgwyl iddynt ei dalu yn 'agos at ei lle' (33 y cant, o gymharu â 25 y cant cyn i'r wybodaeth gael ei darparu). Ar ôl i'r wybodaeth gael ei chyflwyno, nododd un y cant o'r ymatebwyr fod y swm roedd disgwyl iddynt ei dalu yn 'rhy isel' (Ffigur 9).

Ffigur 9: Yn seiliedig ar y gwasanaethau y mae'r dreth gyngor yn eu hariannu, sut fydddech chi'n disgrifio swm y dreth gyngor mae disgwyl i'ch cartref ei dalu?



Sylfaen: 927 o ymatebwyr

- 3.43 Mae Tablau 6, 7 ac 8 yn cyflwyno'r ymatebion a roddwyd pan ofynnwyd i'r cyfranogwyr pam roeddent wedi nodi bod eu treth gyngor yn 'rhy uchel', 'yn agos at ei lle' neu'n 'rhy isel' ar ôl i wybodaeth am y gwasanaethau sy'n cael eu hariannu gan y dreth gyngor gael ei chyflwyno.

Tabl 6: Ar ôl cael gwybodaeth – 'Rhy uchel' – Pam ydych chi'n dweud hyn?

Ymateb	Canran yr ymatebwyr a roddodd yr ateb 'rhy uchel'
Drud iawn/rhy uchel	14
Ddim yn gweld unrhyw fudd yn deillio ohoni/ddim yn defnyddio/cael llawer o wasanaethau	11
Mae gwasanaethau yn wael	11
Ddim yn gweld unrhyw fudd/ddim yn defnyddio/cael unrhyw wasanaethau	10
Gwasanaethau'n cael eu torri	9
Mae arian yn cael ei wastraffu/mae cyflog cynghorwyr yn rhy uchel/gormod o dreuliau	8
Alla i ddim ei fforddio/mae'n anodd ei fforddio gyda'r arian sy'n dod i mewn, gwariant arall]	6
Ddim yn gweld digon o fudd yn deillio ohoni/ddim yn defnyddio/cael digon o wasanaethau	6
Gwerth gwael am arian	5
<i>Arall</i>	11
Y tri ymateb mwyaf cyffredin a gyflwynwyd gan lai na 5 y cant o'r ymatebwyr	
Mae'n ddrud o gymharu â meysydd eraill	
Wedi cynyddu cryn dipyn yn ddiweddar, mae'n cynyddu drwy'r amser	
Nid yw'n adlewyrchu maint, gwerth fy eiddo	

Sylfaen: 452 o ymatebwyr

- 3.44 Roedd y rhesymau a roddwyd gan y rhai a nododd bod y dreth gyngor yn 'rhy uchel' yn ymwneud â fforddiadwyedd yn ogystal â chanfyddiadau o wasanaethau. O'r 452 o ymatebwyr a nododd fod y dreth gyngor yn 'rhy uchel', nododd tua un o bob 10 (11 y cant) fod gwasanaethau yn wael, gyda chyfran debyg (9 y cant) yn nodi bod gwasanaethau yn cael eu torri a 5 y cant yn nodi bod y dreth gyngor yn cynnig gwerth gwael am arian (Tabl 6).

Tabl 7: Ar ôl cael gwybodaeth – 'Yn agos at ei lle' – Pam ydych chi'n dweud hyn?

Ymateb	Canran yr ymatebwyr a roddodd yr ateb 'yn agos at ei lle'
Mae'n talu am lawer o wasanaethau lleol/mae'n deg o ystyried y gwasanaethau rydym yn eu cael/mae angen ariannu gwasanaethau	40
Mae'n deg/swm teg/mae'n ymddangos yn rhesymol	25
Mae gwasanaethau yn dda/mae'r ardal yn cael ei chynnal yn dda	5
Ddim yn gallu ei fforddio	5
<i>Arall</i>	9
Y tri ymateb mwyaf cyffredin a gyflwynwyd gan lai na 5 y cant o'r ymatebwyr	
Gwerth da am arian	
Mae'n adlewyrchu eu heiddo/yr ardal lle rydym yn byw	
Mae'n adlewyrchu incwm/seiliedig ar incwm	

Sylfaen: 302 o ymatebwyr

- 3.45 O'r 302 o ymatebwyr a nododd fod y dreth gyngor yn 'agos at ei lle', nododd 40 y cant fod y dreth gyngor yn 'talw am lawer o wasanaethau lleol/yn deg o ystyried y gwasanaethau rydym yn eu cael/bod angen ariannu gwasanaethau' (Tabl 7).

Tabl 8: Ar ôl cael gwybodaeth – 'Rhy isel' – Pam ydych chi'n dweud hyn?

Ymateb	Canran yr ymatebwyr a roddodd yr ateb 'rhy low' ^a
Mae gwasanaethau yn wael	12
Ddim yn gweld llawer o fudd yn deillio ohoni/ddim yn defnyddio/cael llawer o wasanaethau	8
<i>Arall</i>	65

Sylfaen: 12 o ymatebwyr


- 3.46 Fel y gwelir yn Nhablau 6 ac 8, rhoddwyd yr ymateb 'ddim yn gweld llawer o fudd yn deillio ohoni/ddim yn defnyddio/cael llawer o wasanaethau' gan y rhai a nododd fod y dreth gyngor yn 'rhy uchel' (11 y cant) a'r rhai a nododd fod y dreth gyngor yn 'rhy isel' (8 y cant).

Agweddau tuag at newid

Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn cytuno y dylid disodli'r dreth gyngor â system drethiant leol wahanol er mwyn ei gwneud yn decach. Pan gawsant eu holi am opsiynau eraill, ystyriwyd mai system drethiant leol yn seiliedig ar eich incwm oedd y system decaf.

3.47 Yn rhan olaf yr arolwg, holwyd y cyfranogwyr am eu barn ar newidiadau i system bresennol y dreth gyngor. Gofynnwyd i bob cyfranogwr a oedd yn cytuno neu'n anghytuno y dylid disodli'r dreth gyngor â system drethiant leol wahanol. Roedd pedwar o bob 10 ymatebydd (42 y cant) yn cytuno y dylid disodli'r dreth gyngor â system arall, gyda 17 y cant yn anghytuno. Rhododd pedwar o bob 10 ymatebydd (41 y cant) yr ateb 'ddim yn gwybod' i'r cwestiwn hwn (Ffigur 10).

Ffigur 40: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylid disodli'r dreth gyngor â system drethiant leol wahanol?



Sylfaen: 1,000 o ymatebwyr

Mae 'Cytuno' yn cyfuno'r ymatebion 'Cytuno'n Gryf' a 'Cytuno'. Mae 'Anghytuno' yn cyfuno'r ymatebion 'Anghytuno'n Gryf' ac 'Aghytuno'.

3.48 Roedd gwahaniaethau sylweddol yn ôl crefydd, rhyw, oedran, statws gweithio a statws talu'r dreth gyngor. Roedd ymatebwyr a oedd yn fwy tebygol o gytuno y dylid disodli'r dreth gyngor â system arall:

- O Gaerdydd a De-ddwyrain Cymru (23 y cant, o gymharu â 15 y cant o'r ymatebwyr o Ganolbarth a Gorllewin Cymru, 14 y cant o'r ymatebwyr o Ogledd Cymru a 13 y cant o'r ymatebwyr o Gymoedd De Cymru)
- Yn ddynion (46 y cant, o gymharu â 38 y cant o fenywod)
- Yn 35-54 oed (47 y cant, o gymharu â 37 y cant o'r rhai 16-34 oed)
- Yn gyflogeion amser llawn (48 y cant, o gymharu â 27 y cant o'r ymarferwyr di-waith, 23 y cant o'r myfyrwyr amser llawn a 23 y cant o'r ymatebwyr a oedd wedi ymddeol/nad oeddent yn gweithio'n barhaol)
- Yn talu bil treth gyngor llawn (44 y cant, o gymharu â 42 y cant o'r ymatebwyr a oedd yn cael disgowntiau neu ostyngiadau a 23 y cant o'r ymatebwyr nad oeddent yn talu'r dreth gyngor).

3.49 Gofynnwyd i'r 421 o ymatebwyr a oedd yn cytuno y dylid disodli'r dreth gyngor â system arall esbonio eu barn. Nododd bron i chwarter (24 y cant) yr ymatebwyr hyn y dylid disodli'r dreth gyngor â system arall am nad yw'n deg. Nododd un o bob 10 ymatebydd (12 y cant) y dylid disodli'r dreth gyngor â system arall gan y dylai fod yn seiliedig ar incwm neu'r gallu i dalu neu ystyried incwm neu'r gallu i dalu (Tabl 9).

Tabl 9: Cytuno – Pam ydych chi'n dweud hyn?

Ymateb	Canran yr ymatebwyr sy'n cytuno
Mae'n annheg/er mwyn ei gwneud yn decach	24
Dylai fod yn seiliedig ar/ystyried incwm/y gallu i dalu	12
Mae'r system yn ddiffygiol/wedi dyddio/mae angen ei hailwampio/ei hadolygu	8
Mae angen defnyddio arian yn fwy priodol/ei wario'n well/er mwyn cael gwasanaethau gwell	7
Mae angen lleihau'r gost/mae angen iddi fod yn rhatach/mae'n rhy ddrud ar hyn o bryd	5
Dylai fod yn seiliedig ar y gwasanaethau a ddefnyddir	5
<i>Arall</i>	17
Y tri ymateb mwyaf cyffredin a gyflwynwyd gan lai na 5 y cant o'r ymatebwyr	
Mae gan ardaloedd gwahanol amodau economaidd gwahanol/mae angen adlewyrchu'r ardal leol	
Dylai fod yn seiliedig ar nifer yr unigolion mewn cartref/nid yw'n deg bod aelwydydd llai o faint yn talu'r un swm ag aelwydydd mwy o faint	
Ni ddylai fod yn seiliedig ar eiddo	

Sylfaen: 421 o ymatebwyr

3.50 Gofynnwyd i'r ymatebwyr hynny a oedd yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf y dylid disodli'r dreth gyngor â system arall esbonio eu barn. Y rheswm mwyaf cyffredin dros y farn hon, a fynegwyd gan 42 y cant o'r ymatebwyr hyn, oedd bod y system bresennol yn iawn fel y mae ac nad oes angen ei diwygio. Nododd tua un o bob 10 ymatebydd (9 y cant) nad oedd unrhyw system amlwg i gymryd lle'r dreth gyngor neu nad oeddent yn siŵr beth fyddai'n system well. Nododd 6 y cant o'r ymatebwyr fod y system bresennol yn deg neu ei bod yn hawdd i'w deall, gyda 5 y cant yn nodi nad oes yr un system yn berffaith a bod cynnig wedi'i roi ar systemau eraill yn y gorffennol (Tabl 10).

Tabl 10: Anghytuno – Pam ydych chi'n dweud hyn?

Ymateb	Canran yr ymatebwyr sy'n anghytuno
Mae'r system bresennol yn iawn/yn gweithio/yn iawn fel y mae/nid oes angen ei diwygio	42
Nid oes unrhyw system amlwg i gymryd ei lle/ddim yn siŵr beth fyddai'n system well	9
Mae'r system bresennol yn deg	6
Mae'n hawdd i'w deall/mae pawb yn ei deall	6
Nid oes yr un system yn berffaith/rhoddwyd cynnig ar systemau eraill yn y gorffennol	5
<i>Arall</i>	12
Y tri ymateb mwyaf cyffredin a gyflwynwyd gan lai na 5 y cant o'r ymatebwyr	
Mae'r system bresennol yn iawn ond mae angen ei diwygio, mae angen adolygu'r bandiau/prisiau eiddo	
Byddai newid y system yn cynyddu costau	
Rwy'n cofio treth y pen a pha mor wael ydoedd	


Sylfaen: 166 o ymatebwyr

3.51 Gan adeiladu ar y cwestiwn hwn, gofynnwyd i bob cyfranogwr ystyried pum mesur amgen o swm y dreth gyngor y mae disgwyl iddynt ei dalu a'i sgorio ar raddfa o 1 i 5, pan mai 1 yw'r mesur tecaf a 5 yw'r mesur lleiaf teg. Y mesurau amgen y gofynnwyd iddynt eu hystyried a'u sgorio oedd:

- eich incwm
- gwerth yr eiddo rydych yn berchen arno a/neu'n byw ynddo
- y defnydd rydych yn ei wneud o wasanaethau lleol
- gwerth yr eiddo lle y lleolir eich eiddo
- dylai pawb dalu'r un swm

3.52 Cyfrifwyd cyfartaledd cymedrig yn seiliedig ar y sgoriau a roddwyd i bob mesur amgen, a roddodd sgôr gyfartalog gymedrig gyffredinol ar gyfer tegwch. Yn seiliedig ar y cyfartaledd cymedrig hwn, ystyriwyd mai system drethiant leol yn seiliedig ar eich incwm oedd y system decaf, gyda sgôr gyfartalog gymedrig o 2.20 ar gyfer tegwch. Ystyriwyd mai system drethiant leol lle mae pawb yn talu'r un swm oedd y system leiaf teg, gyda sgôr gyfartalog gymedrig o 3.80 ar gyfer tegwch (Ffigur 11).


Ffigur 11: Pa un o'r canlynol ydych chi'n teimlo fyddai'r mesur tecaf o ran faint o dreth leol y disgwylir i chi ei thalu? Sgôr gyfartalog gymedrig ar gyfer tegwch (1=tecaf, 5=lleiaf teg)



Sylfaen: 1,000 o ymatebwyr


3.53 Fel y gwelir yn Ffigur 11, nododd bron i hanner yr ymatebwyr (46 y cant) mai 'eich incwm' oedd y mesur tecaf o system drethiant leol newydd. Nododd llai nag un o bob 10 (7 y cant) mai 'gwerth y tir lle y lleolir eich eiddo' oedd y mesur tecaf. Nododd dros hanner yr ymatebwyr (57 y cant) mai system lle mae pawb yn talu'r un swm oedd y mesur lleiaf teg (Ffigur 13).

Ffigur 12: Y mesur tecaf o ran faint o dreth leol y disgwylir i chi ei thalu (Sgôr o 1)



Sylfaen: 1,000 o ymatebwyr

Ffigur 13: Y mesur lleiaf teg o ran faint o dreth leol y disgwylir i chi ei thalu (Sgôr o 5)



Sylfaen: 1,000 o ymatebwyr


- 3.54 Gofynnwyd i bob cyfranogwr a oes unrhyw systemau trethiant lleol eraill a fyddai'n decach na'r pum opsiwn a gyflwynwyd yn y cwestiwn blaenorol, yn ei farn ef. Dywedodd y mwyafrif o'r ymatebwyr (64 y cant) na allent feddwl am unrhyw beth.

Rhoddodd bron i chwarter yr ymatebwyr (23 y cant) yr ateb 'ddim yn gwybod' neu 'ddim yn siŵr'. Rhoddodd y nifer bach o ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwn awgrymiadau, gan gynnwys: nifer y bobl sy'n byw mewn tŷ, swm fesul unigolyn sy'n gweithio mewn cartref, treth y pen neu dreth ar gyfoeth.

Pan gawsant eu holi am nodau system drethiant leol newydd, nododd yr ymatebwyr mai'r nod pwysicaf yw sicrhau bod y system yn syml. Pan ofynnwyd iddynt nodi un peth y byddent yn ei newid mewn perthynas â system y dreth gyngor, yr ateb mwyaf cyffredin oedd y dylid gwneud y dreth gyngor yn rhatach, y dylid lleihau taliadau neu eu gwneud yn fwy fforddiadwy.

- 3.55 Gan adeiladu ar beth fyddai'r mesur tecaf o system drethiant leol newydd, gofynnwyd i bob un o'r cyfranogwyr roi eu barn ynglŷn â beth yw nodau pwysicaf trethiant lleol. Cafodd y cyfranogwyr bum nod i'w hystyried a'u sgorio ar raddfa o 1 i 10, gydag 1 yn dynodi 'ddim yn bwysig o gwbl' a 10 yn dynodi 'cwbl hanfodol'.
- Dylai biliau treth lleol adlewyrchu'r gallu i dalu.
 - Dylai gwasanaethau lleol gael eu hariannu'n dda.
 - Dylai systemau talu fod yn syml.
 - Dylai cymorth fod ar gael i unigolion na allant dalu trethi lleol.
 - Dylid casglu trethi lleol yn effeithlon.
- 3.56 Fel uchod, defnyddiwyd yr ymatebion i gyfrifo sgôr gyfartalog gymedrig ar gyfer pwysigrwydd. Yn seiliedig ar y mesur hwn, roedd y canlyniadau yn dangos mai nod pwysicaf trethiant lleol, yn ôl yr ymatebwyr, oedd sicrhau bod systemau talu yn syml (sgôr gyfartalog gymedrig o 8.44 ar gyfer pwysigrwydd). Y nod o sicrhau bod biliau treth lleol yn adlewyrchu'r gallu i dalu a gafodd y sgôr gyfartalog gymedrig isaf ar gyfer pwysigrwydd, sef 7.93, ond nid oedd y sgôr honno ond 0.51 yn is na'r sgôr uchaf, sy'n dangos nad oedd fawr ddim gwahaniaeth rhwng y sgoriau cyfartalog cymedrig ar gyfer pwysigrwydd a roddwyd i'r pum nod (Ffigur 14).


Ffigur 14: Pa mor bwysig yw nodau canlynol trethiant lleol? Sgôr gyfartalog gymedrig ar gyfer pwysigrwydd (1=ddim yn bwysig o gwbl, 10=cwbl hanfodol)



Sylfaen: 1,000 o ymatebwyr

- 3.57 Fel y gwelir yn Ffigur 15, nododd tua phedwar o bob 10 ymatebydd (42 y cant) fod 'dylai systemau talu fod yn syml' yn gwbl hanfodol, tra nododd tua thri o bob 10 ymatebydd (33 y cant) fod 'dylai biliau treth lleol adlewyrchu'r gallu i dalu' yn gwbl hanfodol.

Ffigur 15: Pa mor bwysig yw nodau canlynol trethiant lleol? 'Cwbl hanfodol'



Sylfaen: 1,000 o ymatebwyr

- 3.58 Gofynnodd cwestiwn olaf yr arolwg i'r cyfranogwyr, pe gallent newid un peth am system bresennol y dreth gyngor, beth fyddai hynny? Cwestiwn testun rhydd oedd hwn a chafodd ymatebion tebyg eu grwpio ynghyd. Cyflwynir yr ymatebion yn Nhabl 11. Nododd un o bob pum ymatebydd (19 y cant) y dylai'r dreth gyngor fod yn rhatach, y dylid lleihau taliadau neu eu gwneud yn fwy fforddiadwy. Nododd tua un o bob 10 ymatebydd (9 y cant) na fyddent yn newid unrhyw beth. Nododd 5 y cant o'r ymatebwyr y byddent yn ei gwneud yn decach neu sicrhau ei bod yn fwy tryloyw neu ddarparu rhagor o wybodaeth am y ffordd y mae'r arian yn cael ei wario.

Tabl 11: Pe gallech newid un peth am y system dreth gyngor bresennol, beth fyddai hynny?

Ymateb	Canran yr ymatebwyr
Ei gwneud yn rhatach/lleihau taliadau, prisiau, cyfraddau/mwy fforddiadwy	19
Dim byd/fyddwn i ddim yn newid unrhyw beth	9
Sicrhau ei bod yn seiliedig ar incwm/canran o incwm	7
Ei gwneud yn decach	5
Mwy tryloyw/rhagor o wybodaeth am y ffordd y mae'r arian yn cael ei wario	5
Ddim yn gwybod/ddim yn siŵr	16
<i>Arall</i>	15
Y tri ymateb mwyaf cyffredin a gyflwynwyd gan lai na 5 y cant o'r ymatebwyr	
Newid y bandiau/system fandio	
Ei diddymu	
Mwy o gymorth i'r rhai sy'n ei chael hi'n anodd ymdopi/ar incwm isel	

Sylfaen: 1,000 o ymatebwyr

4. Casgliadau

- Roedd yr ymatebwyr i'r arolwg wedi'u rhannu'n gyfartal rhwng y rhai a nododd eu bod gwybod eithaf tipyn am y dreth gyngor a'r rhai a nododd nad oeddent yn gwybod fawr ddim amdani.
- Pan ofynnwyd iddynt enwi gwasanaethau a ariennir gan y dreth gyngor, y gwasanaethau mwyaf cyffredin a enwyd oedd ailgylchu a chasglu gwastraff, gwasanaethau brys a phrifyrdd.
- Dangosodd yr arolwg fod y mwyafrif o'r ymatebwyr yn ystyried bod talu'r dreth gyngor yn broses syml, eu bod yn gwybod â phwy y dylent gysylltu pe bai ganddynt broblem gyda'r dreth gyngor ac nad oeddent yn ei chael hi'n anodd deall eu bil treth gyngor.
- Cymysg oedd agweddau'r ymatebwyr o ran ymwybyddiaeth o'r cymorth a all fod ar gael i dalu'r dreth gyngor ac a yw eu bil treth gyngor yn adlewyrchu gwerth presennol eu cartref.
- Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn anghytuno eu bod wedi gweld budd y dreth gyngor yn cael ei buddsoddi yn eu cymuned leol neu fod system y dreth gyngor yn deg a nododd dros hanner nad oedd yn glir iddyn nhw sut mae'r dreth gyngor yn cael ei gwario.
- Cymysg oedd agweddau'r ymatebwyr ynghylch i ba raddau y mae system y dreth gyngor yn cefnogi pobl na allant fforddio talu ac a oes gan gynghorau lleol ddigon o reolaeth dros gyfraddau'r dreth gyngor.
- Nododd y mwyafrif o'r ymatebwyr fod swm y dreth gyngor y mae disgwyl iddynt ei dalu yn rhy uchel.
- Fodd bynnag, pan roddwyd gwybodaeth iddynt am y gwasanaethau a ariennir gan y dreth gyngor, nododd cyfran lai o'r ymatebwyr fod eu bil treth gyngor yn rhy uchel a nododd cyfran fwy o'r ymatebwyr fod eu bil yn agos at ei lle neu'n rhy isel yng ngoleuni'r wybodaeth hon.
- Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn cytuno y dylid disodli'r dreth gyngor â system drethiant leol wahanol er mwyn ei gwneud yn decach. Pan gawsant eu holi am opsiynau eraill, ystyriwyd mai system drethiant leol yn seiliedig ar eich incwm oedd y system decaf.

- O ran beth ddylai nodau system drethiant leol newydd fod, nododd yr ymatebwyr mai'r nod pwysicaf yw sicrhau bod y system yn syml.
- Pan ofynnwyd iddynt nodi un peth y byddent yn ei newid mewn perthynas â system y dreth gyngor, yr ateb mwyaf cyffredin oedd y dylid gwneud y dreth gyngor yn rhatach, y dylid lleihau taliadau neu eu gwneud yn fwy fforddiadwy.

Atodiad A: Methodoleg

Arolwg Omnibws Cymru

- 4.1 Bwriedir i sampl Omnibws gynrychioli'r boblogaeth o oedolion sy'n preswyllo yng Nghymru sy'n 16 oed a throsodd. Cwblhawyd y cyfwelwyd gan yr ymatebwyr eu hunain ac fe'u cynhaliwyd gan ddefnyddio llwyfan cyfnewid paneli ar-lein Cint.
- 4.2 Mae llwyfan Cint a'i gynhyrchion yn cydymffurfio â safonau ESOMAR, MRS, ARF, MRIA, AMA, AMSRO ac Insights Association. Mae Cint hefyd yn cydymffurfio ag ISO 20252. Mae sawl gwiriad ansawdd data wedi'u hymgorffori yn system Cint gan gynnwys gwiriad GEO IP a CAPTCHA ar adeg cofrestru, rhif adnabod unigryw ymatebydd a gwiriadau ymddygiad twyllodrus. Yn ogystal â hyn, mae Beaufort yn ymgorffori ei gwestiynau a'i fesurau rheoli ansawdd ei hun yn yr arolwg ac yn hepgor ymatebwyr sy'n methu'r gwiriadau hyn.
- 4.3 Roedd yr arolwg yn destun rheolaethau cwota demograffig plethedig ar gyfer oedran o fewn rhyw. Pennwyd rheolaeth cwota ar wahân arall ar radd gymdeithasol a chynhaliwyd cyfweiliadau â thrigolion ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru.
- 4.4 Cyfluniwyd arolygon ar-lein i'w cwblhau ar gyfrifiadur personol/llechen neu ffôn clyfar a chynigiwyd fersiynau Cymraeg a Saesneg i bob ymatebydd. Gwnaed gwaith maes ar gyfer arolwg mis Mawrth 2022 rhwng 28 Chwefror a 20 Mawrth 2022. Cwblhawyd a dadansoddwyd cyfanswm o 1,000 o gyfweiliadau.
- 4.5 Mae data wedi'u pwysoli yn ôl grŵp oedran, rhyw, grŵp Awdurdodau Lleol a gradd gymdeithasol er mwyn iddynt gyd-fynd â ffigurau Cyfrifiad 2011 a sicrhau eu bod yn cynrychioli'r boblogaeth o oedolion (16+) yng Nghymru yn llawn.
- 4.6 Mae talgrynnu rhifyddol i rifau cyfain yn golygu nad yw cyfanswm y ffigurau mewn colofnau canrannau, o reidrwydd, yn cyfateb yn union i 100%. Lle y gellir rhoi mwy nag un ateb i gwestiwn, efallai y bydd cyfanswm y canrannau yn fwy na 100%. Mae 0 yn dynodi sampl wedi'i phwysoli o lai na 0.5 ac mae 0% yn dynodi canran o lai na 0.5%. Lle mae bonau colofnau yn llai na 50, mae angen dehongli canrannau yn ofalus.
- 4.7 Defnyddiwyd prawf z i nodi a yw cydberthynas a welwyd yn y sampl yn debygol o adlewyrchu cysylltiad gwirioneddol yn y boblogaeth.

Enw'r Newidyn	Disgrifiad
Rhanbarth	
Gogledd Cymru	Y rhai sy'n byw yn Wrecsam, Sir y Fflint, Sir Ddinbych, Conwy, Ynys Môn, Gwynedd
Canolbarth/Gorllewin Cymru	Y rhai sy'n byw ym Mhowys, Ceredigion, Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro
De-orllewin Cymru	Y rhai sy'n byw yn Abertawe, Castell-nedd Port Talbot, Pen-y-bont ar Ogwr
Cymoedd De Cymru	Y rhai sy'n byw yn Rhondda Cynon Taf, Merthyr Tudful, Torfaen, Caerffili, Blaenau Gwent
Caerdydd a De-ddwyrain Cymru	Y rhai sy'n byw yng Nghaerdydd, Bro Morgannwg, Sir Fynwy, Casnewydd
Oedran	
16-24	
25-34	
35-44	
45-54	
55-64	
65+	
16-34	
35-54	
55+	
Gradd Gymdeithasol	

AB	Y rhai sy'n byw mewn cartrefi lle mae'r prif enillydd incwm wedi'i ddosbarthu'n radd gymdeithasol A neu B
C1	Y rhai sy'n byw mewn cartrefi lle mae'r prif enillydd incwm wedi'i ddosbarthu'n radd gymdeithasol C1
C2	Y rhai sy'n byw mewn cartrefi lle mae'r prif enillydd incwm wedi'i ddosbarthu'n radd gymdeithasol C2
DE	Y rhai sy'n byw mewn cartrefi lle mae'r prif enillydd incwm wedi'i ddosbarthu'n radd gymdeithasol D neu E
ABC1	Y rhai sy'n byw mewn cartrefi lle mae'r prif enillydd incwm wedi'i ddosbarthu'n radd gymdeithasol A neu B neu C1
C2DE	Y rhai sy'n byw mewn cartrefi lle mae'r prif enillydd incwm wedi'i ddosbarthu'n radd gymdeithasol C2 neu D neu E
Statws Gweithio	
Cyflogai llawn amser	Y rhai sy'n gyflogeion llawn amser (mwy na 30 awr yr wythnos)
Cyflogai rhan-amser	Y rhai sy'n gyflogeion rhan-amser (30 awr neu lai yr wythnos)
Hunangyflogedig	Y rhai sy'n hunangyflogedig
Di-waith/yn chwilio am waith	Y rhai sy'n ddi-waith neu'n chwilio am waith
Myfyriwr amser llawn	Y rhai sy'n fyfyrwr amser llawn
Wedi ymddeol yn llwyr/ddim yn gweithio'n barhaol	Y rhai sydd wedi ymddeol yn llwyr neu nad ydynt yn gweithio (e.e., gofalwr, yn gofalu am y teulu)
Bandiau Incwm	

Llai na £9,999	
£10,000-£19,999	
£20,000-£29,999	
£30,000-£49,999	
£50,000-£74,999	
£75,000+	
Gwell gennyf beidio â dweud/ddim yn gwybod	
Deiliadaeth	
Yn berchen ar yr eiddo (â morgais neu hebddo)	Y rhai sy'n byw mewn eiddo y maent yn berchen arno (â morgais neu hebddo)
Rhentu eiddo cymdeithasol	Y rhai sy'n byw mewn eiddo y maent yn ei rentu gan y cyngor lleol neu gymdeithas dai
Rhentu eiddo preifat	Y rhai sy'n byw mewn eiddo y maent yn ei rentu gan landlord preifat
Rhanberchnogaeth	Y rhai sy'n byw mewn eiddo y maent yn berchen arno'n rhannol ac yn ei rentu'n rhannol
Statws Anabledd	
Oes	Y rhai sydd â salwch hirdymor, problem iechyd neu anabledd sy'n cyfyngu ar eu gweithgareddau bob dydd neu'r gwaith a wnânt
Nac oes	Y rhai NAD oes ganddynt salwch hirdymor, problem iechyd neu anabledd sy'n cyfyngu ar eu gweithgareddau bob dydd neu'r gwaith a wnânt

Strwythur yr aelwyd	
Un oedolyn sy'n byw ar ei ben ei hun	
Un oedolyn sy'n byw gyda dibynyddion	
Cwpl neu ddau oedolyn neu fwy sy'n byw heb ddibynyddion	
Cwpl neu ddau oedolyn neu fwy sy'n byw gyda dibynyddion	
Sefyllfa arall/heb ei nodi	
Talu'r Dreth Gyngor	
Ydynt – yn llawn	Y rhai sy'n byw mewn cartrefi sy'n talu'r dreth gyngor lawn
Ydynt – yn cael disgownt/gostyngiad	Y rhai sy'n byw mewn cartrefi sy'n talu swm gostyngol o'r dreth gyngor
Nac ydynt	Y rhai sy'n byw mewn cartrefi nad ydynt yn talu'r dreth gyngor
Band Cyngor	
A	Y rhai sy'n byw mewn eiddo ym mand A y dreth gyngor (y band isaf)
B	Y rhai sy'n byw mewn eiddo ym mand B y dreth gyngor
C	Y rhai sy'n byw mewn eiddo ym mand C y dreth gyngor
D	Y rhai sy'n byw mewn eiddo ym mand D y dreth gyngor
E, F, G, H, I	Y rhai sy'n byw mewn eiddo ym mandiau E neu F neu G neu H neu I (y bandiau uchaf)

Ddim yn gwybod/ddim yn siŵr	Y rhai nad ydynt yn siŵr ym mha un o fandiau'r dreth gyngor y maent

Atodiad B – Cwestiynau Arolwg

Adran 1 – Cyfrifoldeb am y dreth gyngor

1. Ydych chi neu unrhyw un yn eich cartref yn talu'r dreth gyngor?

- Ydw/ydy
- Nac ydw/nac ydy

1a. Pa un o'r rhain sy'n disgrifio orau eich cyfrifoldeb am dalu treth gyngor eich cartref?

- Cyfrifoldeb llwyr
- Cyd-gyfrifoldeb
- Dim cyfrifoldeb, mae rhywun arall ar yr aelwyd yn ei dalu

1b. Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio orau pam nad yw eich cartref yn talu'r dreth gyngor?

- Mae pob aelod o'r aelwyd o dan 18 mlwydd oed
- Mae pob aelod o'r aelwyd yn fyfyrwyr
- Mae pob aelod o'r aelwyd yn rhai sydd wedi gadael gofal o dan 25 mlwydd oed
- Rwyf ar incwm isel ac yn derbyn Gostyngiadau'r Dreth Gyngor llawn
- Arall, nodwch:

(Neidiwch gwestiynau 2, 3, 3a 4, 4a, 7, 9, 9a, 10, 10a)

2. Beth yw eich band treth gyngor?

- A (Isaf)
- B
- C
- D
- E
- F
- G
- H
- I (Uchaf)
- Ddim yn siŵr

3. Ydych chi'n derbyn unrhyw ddisgwontiau, eithriadau neu ostyngiadau yn y dreth gyngor?

- Ydw
- Na
- Ddim yn siŵr

3a. Pa ddisgwontiau, eithriadau neu ostyngiadau ydych chi'n eu derbyn?

4. Sut mae eich cartref yn talu'r dreth gyngor?

- Yn wythnosol
- Yn fisol dros ddeng mis
- Yn fisol dros ddeuddeg mis
- Yn flynyddol

4a. Faint o dreth gyngor mae eich cartref yn ei dalu bob wythnos/mis/blwyddyn? [Dilëwch fel y bo'n briodol, yn dilyn ymateb i C4]

Adran 2 – Gwybodaeth ac agweddau at y dreth gyngor

5. Faint fydddech chi'n ei ddweud rydych chi'n ei wybod am y dreth gyngor?

- Llawer iawn
- Eithaf tipyn
- Ychydig iawn
- Dim o gwbl

6. Allwch chi enwi tri gwasanaeth sy'n cael eu hariannu gan y dreth gyngor?

7. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno gyda'r datganiadau canlynol:

- Mae talu'r dreth gyngor yn broses syml
- Dydw i ddim yn gwybod pwy i gysylltu â nhw os oes gen i broblem gyda'r dreth gyngor
- Rwyf yn ymwybodol o'r cymorth treth gyngor a allai fod ar gael
- Mae'n anodd deall fy mil treth gyngor
- Mae fy mil treth gyngor yn adlewyrchu gwerth presennol fy nghartref
- Cytuno'n gryf
- Cytuno
- Anghytuno
- Anghytuno'n gryf

8. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno gyda'r datganiadau canlynol:

- Mae system y dreth gyngor yn deg
- Rwyf wedi gweld budd y dreth gyngor yn cael ei fuddsoddi yn fy nghymuned leol
- Mae system y dreth gyngor yn cefnogi pobl na allant fforddio talu
- Nid oes gan gynghorau lleol ddigon o reolaeth dros gyfraddau'r dreth gyngor
- Nid yw'n glir i mi sut mae'r dreth gyngor yn cael ei gwario
- Cytuno'n gryf
- Cytuno
- Anghytuno
- Anghytuno'n gryf

9. Yn seiliedig ar eich incwm a'ch gwariant, sut fydddech chi'n disgrifio swm y dreth gyngor mae disgwyl i'ch cartref ei dalu?

- Rhy Uchel
- Agos at ei lle
- Rhy Isel

9a. Pam ydych chi'n dweud hynny?

10. Mae'r dreth gyngor yng Nghymru yn helpu i ariannu gwasanaethau yn ein cymunedau, gan gynnwys addysg, gofal cymdeithasol, plismona, gwasanaethau tân ac achub, gwastraff ac ailgylchu, ond hefyd llawer o rai eraill. Yn seiliedig ar y gwasanaethau mae'r dreth gyngor yn eu hariannu, sut fydddech chi'n disgrifio swm y dreth gyngor y disgwylir i'ch cartref ei dalu?

- Rhy Uchel
- Agos at ei lle
- Rhy Isel

10a. Pam ydych chi'n dweud hynny?

Adran 3 Agweddau at Newid

11. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylid disodli'r dreth gyngor â system drethiant leol wahanol?

- Cytuno'n gryf
- Cytuno
- Anghytuno
- Anghytuno'n gryf

11a. Pam ydych chi'n dweud hynny?

12. Pe bai'r system drethu leol yn cael ei newid, pa un o'r canlynol ydych chi'n teimlo fyddai'r mesur tecaf o ran faint o dreth leol y disgwylir i chi ei thalu?

Nodwch eich atebion o 1 i 5, 1 yw'r mesur tecaf a 5 yw'r mesur lleiaf teg.

12a. A oes unrhyw system arall y credwch y byddai'n decach na'r rhai a gyflwynwyd yn y cwestiwn blaenorol?

13. Yn eich barn chi, pa mor bwysig yw nodau canlynol trethiant lleol? Atebwch ar raddfa o 1 i 10 lle mae 1=ddim yn bwysig o gwbl i 10=cwbl hanfodol

- Dylai biliau treth lleol adlewyrchu'r gallu i dalu
- Dylai gwasanaethau lleol gael eu hariannu'n dda
- Dylai systemau talu fod yn syml
- Dylai cymorth fod ar gael i unigolion na allant dalu trethi lleol
- Dylid casglu trethi lleol yn effeithlon

14. Pe gallech newid un peth am y system dreth gyngor bresennol, beth fyddai hynny?